# CYLCHGRAWN ADDYSG CYMRU

# 22.2

*Golygyddion*
Ann Keane (Cyn-Brif Arolygydd ei Mawrhydi
dros Addysg a Hyfforddiant, Estyn)
Yr Athro John Furlong (Prifysgol Rhydychen)

*Bwrdd Golygyddol*
Yr Athro Gary Beauchamp (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)
Yr Athro David Egan (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)
Yr Athro John Furlong (Prifysgol Rhydychen)
Dr John Graystone
Dr Russell Grigg (Gweinyddiaeth Addysg,
Yr Emiraethau Arabaidd Unedig)
Yr Athro Mark Hadfield (Prifysgol Caerdydd)
Yr Athro Alma Harris (Prifysgol Caerfaddon)
Yr Athro Emeritws David Hopkins (Sefydliad Addysg UCL)
Dr Chris Howard
Dr Cath Jones (Prifysgol De Cymru)
Yr Athro Dylan Jones (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant)
Dr Michelle Jones (Prifysgol Caerfaddon)
Ann Keane (Cyn-Brif Arolygydd ei Mawrhydi dros Addysg a
Hyfforddiant, Estyn)
Dr Chris Llewelyn (Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes,
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)
Yr Athro David Reynolds (Prifysgol Abertawe)
Yr Athro Claire Taylor (Prifysgol Glyndŵr Wrecsam)
Yr Athro Iram Siraj (Prifysgol Rhydychen)
Yr Athro Malcolm Thomas (Prifysgol Aberystwyth)
Dr Richard Thurston (Llywodraeth Cymru)
Dr Jean Ware (Prifysgol Bangor)
Yr Athro Dylan Wiliam (Sefydliad Addysg UCL)

*https://doi.org/10.16922/wje.22.2*

# *Cynnwys*


| | |
|---|---|
| Cyfranwyr | v |
| Addasrwydd y ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg at gynhyrchu siaradwyr yr iaith<br>DR ASHLEY BEARD | 1 |
| Mentora Athrawon Addysg Gorfforol dan Hyfforddiant yng Nghymru: gwersi adolygiad systematig o'r llenyddiaeth<br>SALLY BETHELL, DR ANNA S. BRYANT, YR ATHRO STEVE M. COOPER, DR LOWRI C. EDWARDS, DR KIERAN HODGKIN | 26 |
| Effeithlonrwydd Canolig: Cymharu Mewnbynnau ac Allbynnau yn ôl Iaith y Cyfarwyddyd mewn Ysgolion Uwchradd yng Nghymru<br>YR ATHRO GERAINT JOHNES | 52 |
| Defnyddio Dull Rhuglder Cyfarwyddiadol i Addysgu Sgiliau Adio Mewn Uned Cyfeirio Disgyblion: Astudiaeth Beilot<br>KAYDEE OWEN, DR RICHARD C. WATKINS, DR MICHAEL BEVERLEY, YR ATHRO J. CARL HUGHES | 67 |
| Nodiadau i gyfranwyr | 98 |

# *Cyfranwyr*

Mae **Ashley Beard** yn diwtor Cymraeg, ac wedi addysgu mewn amrywiaeth o gyd-destunau addysgol. Tan yn ddiweddar, roedd hi'n ddarlithydd Cymraeg ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd ar raglenni Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. Ar hyn o bryd, hi yw rheolwr y ddarpariaeth Gymraeg yn yr Ysgol Ddeintyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd, ac mae'n parhau i addysgu ar gyrsiau Cymraeg i oedolion. Cwblhaodd ei PhD yn 2016 ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, a ariannwyd gan Gynllun Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ei diddordebau ymchwil yw caffael ail iaith, a dulliau o addysgu a dysgu iaith.

Mae **Sally Bethell** yn uwch ddarlithydd mewn addysg gychwynnol i athrawon yn yr Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, ac yn gymrawd uwch o'r Academi Addysg Uwch. Mae Sally'n arwain y gwaith o ddatblygu dysgu proffesiynol ar gyfer mentora mewn ysgolion ym maes AGA. Mae ei diddordebau ymchwil yn ymwneud â mentora a chefnogi mentoriaid i hunan-fyfyrio ar eu rôl. Mae hi hefyd yn rhan o'r gwaith o ddatblygu Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles ar draws pob rhaglen AGA a phob ysgol bartneriaeth.

Mae **Dr Michael Beverley** yn uwch ddarlithydd a chyfarwyddwr asesu ac adborth myfyrwyr yn Adran Seicoleg Prifysgol Bangor. Mae'n addysgu ac yn drefnydd ar fodiwl sy'n canolbwyntio ar gymwysiadau addysgol dadansoddi ymddygiad er mwyn gwella ymddygiad rhugl a monitro cynnydd unigol dysgwyr. Mae wedi cynnal hyfforddiant mewn addysgu manwl yn y DU, Sbaen, yr Eidal a Norwy. Mae ei waith ymchwil yn canolbwyntio ar wella sgiliau addysg sylfaenol mewn lleoliadau prif ffrwd ac addysgol arbennig.

Mae **Dr Anna S. Bryant** yn brif ddarlithydd mewn ymgysylltu â myfyrwyr yn Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Ar ôl cyfnod fel athrawes addysg gorfforol yn Ysgol Bro Morgannwg, mae Anna wedi gwneud cyfraniad sylweddol ers hynny at addysg gorfforol iechyd, yn benodol ym maes llythrennedd

corfforol ac 'iechyd a lles'. Mae hi wedi arwain prosiect 'Ymgynghorwyr Llythrennedd Corfforol Chwaraeon Cymru' Prifysgol Metropolitan Caerdydd, ac roedd yn aelod panel rhyngwladol ar gyfer prosiect llythrennedd corfforol Comisiwn Chwaraeon Awstralia (2016–17). Yn fwy diweddar, mae Anna wedi bod yn ymwneud â darparu ymgynghoriaeth academaidd i Lywodraeth Cymru ar Faes Dysgu a Phrofiad newydd Iechyd a Lles, ac mae wedi chwarae rhan ganolog ym Mhrosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (PYPC) Llywodraeth Cymru Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

Mae **Dr Steve M. Cooper** yn athro bioystadegau cymhwysol ac yn Uwch Fentor Arweinyddiaeth Ymchwil (Chwaraeon) yn Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd. Mae Steve wedi'i secondio ar hyn o bryd hefyd fel cydlynydd astudiaethau graddedig yn Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae Steve yn gymrawd etholedig o'r Gymdeithas Ystadegol Frenhinol, yn gymrawd etholedig o'r Ganolfan Ragoriaeth Genedlaethol mewn Addysgu Mathemateg, yn gymrawd o'r Sefydliad Mathemateg a'i Chymwysiadau, ac yn gymrawd o'r Academi Addysg Uwch. Mae diddordebau ymchwil Steve yn cynnwys dibynadwyedd, cywirdeb a manylder profion ac offerynnau mesur a ddefnyddir i asesu agweddau ar addysg gorfforol, llythrennedd corfforol, ffitrwydd corfforol a pherfformiad chwaraeon.

Mae **Dr Lowri C. Edwards** yn ddarlithydd mewn chwaraeon, addysg gorfforol ac iechyd yn yr Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd, Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Roedd doethuriaeth Lowri yn archwilio effeithiau rhaglen datblygiad proffesiynol llythrennedd corfforol gydag athrawon ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Ei diddordebau ymchwil yw llythrennedd corfforol ym maes addysg ac yn y gymuned, datblygiad proffesiynol athrawon, a'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru.

Mae **Dr Kieran Hodgkin** yn uwch ddarlithydd mewn astudiaethau addysg yn yr Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol, Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Cwblhaodd Kieran ei PhD ym mis Gorffennaf 2014. Roedd ei waith ymchwil yn canolbwyntio ar ddisgwyliadau a phrofiadau disgyblion o'r cyfnod pontio cynradd-uwchradd gyda ffocws penodol ar addysg gorfforol. Mae diddordebau ymchwil cyfredol Kieran yn cynnwys cyfnodau pontio ym maes addysg, ethnograffeg ac ymchwil. Ar hyn o bryd mae'n

gadeirydd pwyllgor moeseg yr ysgol ac yn gyfarwyddwr rhaglen ar gyfer y rhaglen BA (Anrh) mewn Astudiaethau Addysg Gynradd.

Mae'r **Athro J. Carl Hughes** yn athro ymchwil addysg, ac yn bennaeth ar Ysgol Addysg a Datblygiad Dynol, Prifysgol Bangor. Mae'n un o Sylfaenwyr y Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), sy'n sefydliad cydweithredol, dwyieithog, amlddisgyblaethol ar gyfer creu ymchwil effaith a arweinir gan gyd-destun mewn ysgolion, gyda'r nod o ddylanwadu'n gadarnhaol ar ymarfer addysgol, dysgu proffesiynol, deilliannau addysgol, a dysgu a lles ar gyfer plant yn ein hysgolion. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys ymyraethau addysgol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ymchwil effaith agos-i-ymarfer, cyfarwyddyd darllen a datblygu systemau addysgol a gaiff eu llywio gan dystiolaeth. Mae ganddo dros hanner cant o gyhoeddiadau a adolygwyd gan gymheiriaid.

Mae **Geraint Johnes** yn athro economeg yn Ysgol Reolaeth Prifysgol Caerhirfryn. Bu'n Gyfarwyddwr y Sefydliad Gwaith yn Llundain o 2014 tan 2015, a bu'n gweithio yng Ngholeg Dartmouth, New Hampshire ac ym Mhrifysgol Genedlaethol Awstralia. Mae wedi cyhoeddi'n eang ar fesur effeithlonrwydd mewn cyfnodolion economeg blaenllaw, ac mae'n awdur sawl llyfr ym maes economeg llafur ac economeg addysg. Mae Geraint yn sylwebydd rheolaidd ar ddigwyddiadau economaidd ar y teledu a'r radio (BBC, Al Jazeera, Sky, RT, ac ati). Mae ei waith diweddaraf yn canolbwyntio ar natur yr economi gìg ar lefel ranbarthol yn y DU, ac ar effeithiau cyflogaeth datblygiadau yn y sector manwerthu.

Mae **Kaydee Owen** yn fyfyriwr PhD yn yr Ysgol Seicoleg ym Mhrifysgol Bangor. Mae ei hymchwil yn archwilio'r defnydd o addysgu manwl a chyfarwyddyd uniongyrchol i gefnogi datblygiad sgiliau mathemategol mewn plant. Mae gan Kaydee ddiddordeb arbennig mewn ymchwilio i strategaethau addysgol a all leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng plant o grwpiau penodol 'mewn perygl' a'u cyfoedion.

**Dr Richard C. Watkins** yw'r arweinydd ymchwil a gwerthuso ar gyfer Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru (GwE), ac mae'n aelod o dîm rheoli'r Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI) ym Mhrifysgol Bangor. Mae ei waith a'i ddiddordebau ymchwil yn cynnwys addysg gwyddoniaeth a chymhwyso strategaethau addysgu sy'n seiliedig ar

dystiolaeth mewn ysgolion. Mae'n cydlynu prosiectau ymchwil sy'n canol-bwyntio ar gymhwyso ac effaith ymarfer, sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn ysgolion ar draws y Gogledd, ac yn cyd-oruchwylio myfyrwyr doethurol sy'n gweithio ar draws amrywiaeth o brosiectau ysgol cydweithredol.